W 2
2191
TJ 879 (Sal) 2377

# LLOFRUDDIAETH

## *Morwyn a Phlentyn sugno*

I JOSEPH LLOYD, FFERMWR,

YN FFOREST DELAMERE,

SWYDD GAERLLEON,

UNIV. COLL. OF WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY

AR

NOS Y BYMTHEGFED O FIS TACHWEDD,
1811.

---

Aberystwyth, Argraffwyd gan S. Williams---1812.

---

CHWI wragedd mwyn sy'n famau plant,
Mae llawer cant yn ŵylo,
Wrth glywed am y Mwrddra tôst,
Y galon losg wrth wrando:
Un JOSEPH LLOYD oedd enw'r gwan,
Medd 'r hanes, Ffermwr bychan,
Wrth *Delamere* oedd ei artrau,
Yn ol 'r hanes gefais innau;
Dyna'r fan bu tywallt gwa'd,
Pwy fam na thâd na 'larai?

TACHWEDD fis, bymthegfed dydd,
Y cyfrif sydd i'w gofio,
Chwech o ddynion ddaeth i'r tŷ,
I 'mofyn lletty yno;

Y Wraig ddywedodd, gan sirioli,
Nad oedd gwelyau iddynt gysgu,
Fod groeso iddynt fyn'd i'r 'sgubor,
Pe buasai gwell, hwy gawsent ragor;
Ni haedd'sent hwy, a dweyd yn lân,
Ond uffern dân yn drysor.

Wedi dangos parch i dre',
Pwy dybiai buasai iddynt
Osod dwylaw ar y Ferch,
Ag oedd mor serchog iddynt;
Myn'd â'r pâr blancedi cryno,
A chanwyll hefyd i'w goleuo:
Yn y fan pan aeth hi allan,
Gosod dwylaw arni 'n aflan,
Tòri ei phen o glust i glust,
Y gwaed sy'n dyst ei hunan.

Y Wraig wrth glywed oer-lais hon,
A chalon drom ofidus,
Heb wybod p'le i geisio ffoi,
Yn ddigon clau yn ddilys;
Awdwr nefoedd fawr a daear,
Fu'n gymhorth iddi mewn cyfyngdar,
Fe 'i hymgeleddodd ac a'i cuddiodd,
Trwy 'i ragluniaeth 'fe a'i cipiodd,
Dan Dwba llaeth yr aeth hi'n grwn,
Ac ofn trwm a'i llanwodd.

Oh 'r brofedigaeth lwythog, lym!
Gwrandewch ar hyn, wyr ieuainc,
Y Mwrddrwyr ddaethant 'nol i'r tŷ,
Am dani hwy 'mofynent:
Wedi iddynt fethu'i ffeindio,
'R oedd yn y Cawell Blentyn sugno,
Y baban gwirion, angel tirion,
Hedyn gwan o dan ei chalon,
Cymmerent hwn yn grwn mewn llaw,
A'i fam mewn braw ac ofon.

Dw'r berwedig oedd ar y tân,
Oh, aethus, aflan weithred!
'Sgaldanu traed y Plentyn gwan,
A'i anwyl Fam yn clywed:
Yr oe'nt yn dywedyd, dyma 'r geiriau,
Fe ddaw 'r hên gâth wrth lais y cathau.
Wedi ffaelu'i gwel'd hi 'n dyfod,
Hwy ro'ent i'r Baban farwol ddyrnod,
Ffysto ei ben yn erbyn llawr,
Oh'r weithred wyddfawr hynod!

Gwaelod Twba oedd yn lle Bwrdd,
I ranu ffwrdd yr Arian,
A'r Wraig o dano 'n cwatto 'n glôs,
Mawr oedd ei lo's hi, druan;
Hi glywai dri o'r chwech yn settlo,
B'le aent i gysgu'r noswaith hòno,

I Dŷ Tafarn yn ochr *Forest*,
Yno yr aethont heb fawr orchest;
'Bant aeth y lleill, na wy's pwy dîr,
A dweyd y gwîr yn *earnest*.

Gŵr y tŷ, pan ddaeth i dre',
A gwel'd fath le aflawen,
Rhyfeddu oedd heb wel'd un dyn,
A'r Plentyn oedd yn gelain.
Y Wraig, wrth glywed llais ei Phriod,
A ddaeth allan, er mawr syndod,
Hi fynegodd iddo 'r cyfan,
Ei holl drafferth yno, druan:
Yntau wrth glywed, synu wnaeth,
Yn union aeth e' allan.

Hèla ei geffyl wnaeth e'n glou,
I gael crynhoi cym'dogion;
Nesaf peth, i'r Tafarn a'th,
A gofyn am fath ddynion.
Gŵr y Tafarn dd'wedodd wrtho,
Mae yma dri yn cysgu heno,
Gadewch hwy 'n llonydd hyd y borau.
Fy ngheraint ydynt, LLOYD ddywedai.
Dyna 'r fan y daliwyd tri;
Yn awr maent wedi dyoddau.

T. THOMAS, Abertawe, a'i Cânt.

DIWEDD.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY